# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

{my}dentist Clifton Terrace, Y Drenewydd – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Dyddiad yr arolygiad: 20 Mawrth 2018

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mehefin 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-947-4



© Hawlfraint y Goron 2018

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 7

   Ansawdd profiad y claf ........ 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 12

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 17

4. Beth nesaf? ........ 19

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 20

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 21

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 22

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ 24

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle y rhoddwyd rhybudd o {my}dentist yn Clifton terrace, y Drenewydd, o fewn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ar 20 Mawrth 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth glir fod {my}dentist yn Clifton Terrace, y Drenewydd, yn darparu gofal diogel ac effeithiol i’w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff sy'n broffesiynol ac yn ymroddedig. Fodd bynnag, daethom ar draws peth tystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion
- Roedd y cleifion yn cael eu trin â pharch ac urddas
- Roedd ganddo ystafelloedd triniaeth glân a hylan
- Roedd offer deintyddol yn cael eu glanhau a’u sterileiddio’n briodol
- Roedd yn darparu amrywiaeth o ddeunyddiau addysg/hyrwyddo iechyd
- Roedd yn darparu cefnogaeth i'r staff

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Cyflwyno adnoddau Cymraeg
- Cofnodi cyngor ar roi’r gorau i smygu mewn cofnodion cleifion
- Y gwaith o adrodd am radiograffau mewn cofnodion cleifion
- Gweithredu ar wybodaeth a nodir mewn archwiliadau
- Sicrhau bod asesiadau risg penodol i swydd yn cael eu cwblhau ar staff priodol

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae {my}dentist yn Clifton Terrace, y Drenewydd, yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn y Drenewydd a threfi a phentrefi yn y cyffiniau. Mae’r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, un hylenydd, tair nyrs ddeintyddol, tri aelod o staff derbynfa ac un rheolwr practis.

Mae’r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Roedd y practis yn gweithio'n galed i ddarparu cleifion â thriniaeth gofal iechyd y geg o safon. Heb eithriad, roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wedi darparu adborth cadarnhaol mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperid yn y practis.

Roedd yr amgylchedd y tu mewn yn ddymunol ac o safon. Roedd y man aros yn olau ac yn awyrog ac yn darparu amrywiaeth o adnoddau ysgrifenedig i hyrwyddo iechyd a hylendid y geg.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 28 o holiaduron. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Dim problemau, mae popeth yn iawn"*
>
> *"Mae'r deintydd mae fy mab yn ei weld yn wych – pump oed yn unig yw fy mab ac mae'n rhoi sicrwydd iddo bob tro"*
>
> *"Dim cwynion, mae 100% o'r deintyddion yn dda"*
>
> *"Cymwynasgar iawn, bob tro'n ystyrlon ac yn barod i helpu pan fo angen apwyntiad arnoch"*

### Cadw'n iach

Gwnaethom nodi yn ystod ein harolygiad fod amrywiaeth dda o ddeunyddiau addysg/hyrwyddo iechyd deintyddol ar gael yn y man aros. Fodd bynnag, dywedodd pum claf a gwblhaodd holiadur nad oeddent wedi derbyn gwybodaeth/cyngor gan y tîm deintyddol ynghylch sut i gadw eu cegau a'u dannedd yn lân. Mae darparu deunyddiau hyrwyddo/addysg iechyd y geg yn elfennau sylfaenol o ran hyrwyddo iechyd y geg cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn gwybodaeth/cyngor ar iechyd y geg.

## Gofal ag urddas

Yn ystod ein hymweliad â'r practis, gwelsom yr holl gleifion yn cael eu trin mewn ffordd garedig a chwrtais.

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu storio'n electronig ac roedd sgriniau cyfrifiaduron wedi'u lleoli mewn ffordd a fyddai'n sicrhau cyfrinachedd. Roedd desg y dderbynfa wedi'i lleoli yn y man aros. Fe'n hysbyswyd gan staff petai cleifion am gael trafodaeth gyfrinachol, y byddent naill ai'n cael eu cyfeirio at un o'r ystafelloedd triniaeth gwag neu i'r swyddfa.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol, lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth, yn parhau ar gau yn ystod ymgynghoriadau er mwyn hyrwyddo a sicrhau lefelau da o breifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth i gleifion

Roedd posteri o amgylch y practis a oedd yn cynnwys gwybodaeth am brisiau triniaeth. Roedd yr wybodaeth hon ar gael ar wefan y practis hefyd. Roedd y wefan yn darparu gwybodaeth am yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarparwyd yn y practis. Roedd manylion oriau agor y swyddfa wedi cael eu harddangos yn briodol. Roedd gan y practis ei lyfryn gwybodaeth ei hun i gleifion fynd ag ef adref gyda nhw.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod yn cael eu trin â pharch bob tro wrth ymweld â'r practis deintyddol ac roedd pob un ond un yn gallu siarad â staff yn ei iaith ddewisol. Fel a nodwyd gynt, roedd amrywiaeth dda o ddeunyddiau addysg/hyrwyddo iechyd ar gael yn y man aros. Fodd bynnag, hyn a hyn o ddeunyddiau Cymraeg oedd ar gael. Rydym yn argymell bod y practis yn hyrwyddo'i ddefnydd o'r Gymraeg oherwydd bod cleifion o bentrefi a threfi sy'n Gymraeg eu hiaith yn bennaf yn defnyddio'r gwasanaeth a ddarperir yn y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis wella'r defnydd o adnoddau/deunyddiau Cymraeg.

## Gofal amserol

Cawsom wybod gan y staff eu bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y darperir gofal a thriniaeth mewn ffordd amserol. Cafodd y cleifion wybod am unrhyw oedi gwirioneddol neu bosib cyn gynted ag y bo modd.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom dystiolaeth mewn cofnodion fod hanesion meddygol cleifion yn cael eu hadolygu a'u diweddaru ym mhob apwyntiad. Yn ogystal, gwnaeth pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron gadarnhau bod y deintydd wedi gofyn iddo am ei iechyd cyffredinol.

### Hawliau pobl

Roedd gan y sefydliad bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Roedd hyn yn dangos bod y practis wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb yn cael mynediad i'r un cyfleoedd ac i'r un driniaeth deg. Yn ôl y gofyn, roedd ramp ar gael i bobl â chymhorthion symudedd, gan alluogi mynediad i'r eiddo ar y llawr daear. Mae gan y practis ystafelloedd triniaeth sydd ar waith dros ddau lawr a chawsom wybod y byddai cleifion â phroblemau symudedd yn cael eu trin yn un o'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear.

Roedd y cyfleusterau toiled yn y practis yn gyfyngedig ac roedd yr unig doiled ar y llawr cyntaf. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â hwy, oherwydd maint bach adeilad y practis, nad oedd wedi bod yn bosib cynnwys toiled â mynediad i gadeiriau olwyn ar y llawr cyntaf. Cawsom wybod bod y practis wedi datblygu datganiad/cynllun mynediad. Cafodd y cleifion â phroblemau symudedd wybod am y broblem hon a'u cyfeirio i bractisau eraill petai angen.

Nid oedd unrhyw barcio dynodedig ar gael; fodd bynnag, roedd parcio i geir ar y stryd ar gael ac roedd maes parcio cyhoeddus ar gael gerllaw.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau a pholisïau cwyno ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â chwynion, pryderon ac adborth gan gleifion. Ethos y practis oedd mynd i'r afael â phryderon/cwynion mewn modd amserol. Yn ogystal, roedd gan y practis flwch awgrymiadau yn y man aros ac roedd gan wefan y practis gyfleuster i gleifion ddarparu sylwadau ar-lein hefyd. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom y cwynion presennol a oedd ar waith. Cawsom wybod bod y practis yn derbyn niferoedd cymharol isel o gwynion a bod y sefydliad yn eu hystyried fel adnodd/cyfle i ddysgu. Ymchwiliwyd i gwynion mewn modd amserol a'u trafod, lle'r oedd hynny'n briodol, mewn cyfarfodydd staff perthnasol a chyda'r staff.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, gwnaethom nodi safon uchel o ddeintyddiaeth a oedd yn cael ei darparu drwy ddull personol a oedd yn seiliedig ar anghenion cleifion.

Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod cyfarpar pelydr-X a dadheintio yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio mewn sefyllfa frys.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis. Yn ystod ein hymweliad, canfuom nad oedd y llyfr damweiniau'n cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel ac mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Gwnaethom nodi bod manylion digwyddiadau wedi cael eu nodi yn y llyfr damweiniau a oedd yn cynnwys gwybodaeth sensitif. Gwnaethom gynghori rheolwr y practis i sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei chadw'n ddiogel, a rhoddwyd y mesur hwn ar waith yn syth.

Roedd asesiadau risg ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a thaflenni data diogelwch yn cael eu cadw mewn ffordd gynhwysfawr ac roeddent yn cynnwys asesiadau risg priodol. Yn ogystal, roedd asesiadau risg tân ar gael i'r eiddo a oedd wedi'u diweddaru.

Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod trwy'r adeilad ac roeddent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda dan gontract gyda chwmni allanol. Gwelsom hefyd fod

arwyddion dim smygu wedi'u lleoli'n gyson o amgylch y practis, a oedd yn cydymffurfio â rheoliadau cysylltiedig.

Gwnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis. Roedd y rhain yn lân ac yn daclus. Roedd modd glanhau arwynebau a lloriau yn yr ystafelloedd triniaeth yn hawdd er mwyn atal croes-heintio.

Sylwom fod profion wedi eu cynnal ar y dyfeisiau trydanol cludadwy o fewn y 12 mis diwethaf, gan helpu i sicrhau y gellir defnyddio cyfarpar trydanol bach yn ddiogel yn y practis.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd toiled y cleifion wedi cael ei adnewyddu'n ddiweddar. Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom nodi bod pibell yn gollwng dŵr o'r tu ôl i'r toiled. Cawsom wybod bod cwmni plymio yno i drwsio'r broblem. Gwnaethom argymell bod y practis yn hysbysu AGIC pan fydd y gollyngiad wedi cael ei drwsio'n briodol. Yn ogystal, gwnaethom nodi bod bin clawr agored yn cael ei ddefnyddio. Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried darparu biniau a weithredir â'r droed oherwydd gall hyn leihau'r perygl o groes-heintio o bosib.

Nodwyd gennym hefyd fod paent o amgylch y sinc golchi dwylo wedi'i dolcio ac yn peri problem atal a rheoli heintiau bosib.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[1]

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i’r practis sicrhau bod y gollyngiad dŵr y tu ôl i'r toiled wedi'i drwsio.

Rhaid i'r practis sicrhau bod biniau gwaredu gwastraff priodol yn cael eu defnyddio yn nhoiled y cleifion.

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl waith paent a selwyr o amgylch sinciau'n

[1] https://www.walesdeanery.org/quality-improvement/national-audit-projects/whtm-01-05

cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio ac i hyrwyddo atal heintiau.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd y practis wedi sefydlu gweithdrefnau i ymateb i argyfyngau (mewn cysylltiad â chleifion). Canfuom fod y cyfarpar adfywio a'r cyffuriau argyfwng yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd y cyffuriau a'r cyfarpar yn cael eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau eu bod o fewn eu dyddiad ac yn ddiogel i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a amlinellir gan Gyngor Dadebru'r DU.[2]

Gwnaeth cofnodion a welwyd gadarnhau bod y staff a gyflogir yn y practis wedi derbyn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd diweddar. Gwelsom fod gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodedig a enwyd yn y practis.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Canfuwyd gennym fod gan y practis bolisïau diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Roedd cofnodion hefyd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant priodol ar ddiogelu oedolion a phlant. Yn ystod ein hymweliad, cynhaliwyd trafodaethau â thri aelod o staff mewn perthynas â'r gweithdrefnau i'w dilyn petai unrhyw bryderon ynghylch diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Dangosodd y tri aelod o staff ddealltwriaeth drylwyr o faterion diogelu a'u cyfrifoldebau o ran adrodd am unrhyw bryderon. Cymeradwyir y practis am y maes hwn o wybodaeth ac arfer staff.

Gwnaethom nodi bod prosesau diogel ac effeithiol ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff wedi derbyn gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

[2] Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithredu.

Gwnaethom hefyd gadarnhau bod yr holl aelodau perthnasol o staff wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd yr holl gyfarpar radiolegol yn cael ei gynnal ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Cawsom wybod bod staff clinigol perthnasol wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf a'u bod yn bodloni canllawiau a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn ystod ein hymweliad, roedd yn amlwg fod y practis yn ceisio gwella’r gwasanaethau a ddarperir yn barhaus. Roedd hyn yn cael ei hyrwyddo drwy ddefnyddio archwiliadau niferus.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Drwy archwilio cofnodion clinigol, gwnaethom nodi bod adolygiadau gan gymheiriaid clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Fodd bynnag, yn ystod ein trafodaethau, nid oedd yn glir pa gamau gweithredu oedd wedi eu cymryd er mwyn sicrhau yr eid i'r afael ag anghysondebau a nodwyd mewn modd cynhwysfawr.  Gwnaethom argymell bod y practis yn datblygu cynllun gweithredu os bydd problemau'n cael eu nodi, er mwyn cyfrannu ymhellach at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr sicrhau bod cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu a'i roi ar waith yn dilyn unrhyw adolygiadau gan gymheiriaid clinigol a’i fod yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis bolisïau a gweithdrefnau diogelu data cyfredol ar waith. Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel. Roedd y modd y caniateid mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel a gochelgar. Roedd hyn yn golygu bod gan y practis systemau addas ar waith i gynnal cyfrinachedd cleifion.

### Cadw cofnodion

Ar y cyfan, roedd gwaith cadw cofnodion gan glinigwyr o safon uchel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen rhai gwelliannau.  Yn gyntaf, roedd y gwaith o gofnodi cyngor ar roi'r gorau i smygu yn anghyson yng nghofnodion y cleifion. Yn ail, gwelwyd tystiolaeth o gofnodi anghyson rheolaidd o Archwiliadau Cyfnodol Sylfaenol. Rydym yn argymell y dylai'r practis adolygu'r meysydd arfer hyn a sicrhau bod cofnodion cynhwysfawr yn cael eu cynnal yng nghofnodion y cleifion. Yn drydydd, mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod canfyddiadau darluniau pelydr-X yn cael eu cofnodi'n briodol yng nghofnodion y cleifion.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau y cofnodir cyngor ar roi'r gorau i smygu yn gyson i gleifion.

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cofnodi Archwiliadau Cyfnodol Sylfaenol mewn modd cyson a chynhwysfawr.

Rhaid i'r practis sicrhau bod canfyddiadau radiograffau yn cael eu cofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod gan y practis linellau atebolrwydd clir i'r staff. Roedd y practis yn cael ei redeg yn dda gydag ymrwymiad cryf gan yr holl staff i ddarparu gofal iechyd y geg diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar gael i helpu i redeg y practis mewn ffordd ddiogel ac esmwyth. Roedd y staff yn hapus yn eu rolau ac yn gymwys wrth gynnal eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

Roedd y staff yn teimlo fel eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon gyda'r rheolwyr ac y byddai'r pryderon hyn yn cael eu trin mewn modd amserol a chynhwysol.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Ar y cyfan, roedd y practis yn cael ei reoli'n dda. Roedd rheolwr y practis yn rhagweithiol wrth sicrhau y gallai'r staff ddod ato gydag unrhyw bryderon/faterion ac y byddai'r rhain yn cael eu trin mewn ffordd gadarnhaol. Siaradodd y staff yn gadarnhaol am y rheolwyr yn y sefydliad a'r gefnogaeth a'r hyfforddiant sydd ar gael iddynt. Nododd y staff eu bod yn derbyn digon o hyfforddiant i ymgymryd â'u dyletswyddau mewn ffordd gynhwysfawr a chymwys.

### Staff ac adnoddau

#### Gweithlu

Roedd gan y practis dîm staff cyson a sefydlog, a chafodd gwaith tîm da ei adrodd a'i weld ar ddiwrnod yr arolygiad. Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi eu cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad ar waith. Roedd systemau ar waith i sicrhau bod

gwiriadau cyn cyflogaeth unrhyw aelodau newydd o staff yn cael eu cynnal cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Gwnaethom adolygu'r polisi chwythu’r chwiban ac, yn gyffredinol, roedd o safon dda, yn glir ac yn llawn gwybodaeth. Roedd yn cynnwys gwybodaeth dda mewn perthynas â sefydliadau perthynol y mae modd cysylltu â hwy am fwy o gyngor/cymorth petai angen. Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys manylion/gwybodaeth gyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd. Trafodwyd y mater hwn gyda'r rheolwr rhanbarthol, a gytunodd i fynd i'r afael â'r mater mewn ffordd briodol.

Yn gyffredinol, roedd arfarniadau staff yn cael eu cynnal mewn modd amserol a'u cofnodi'n briodol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd un aelod o staff wedi derbyn arfarniad am beth amser. Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis am y mater hwn. Roedd yn ymwybodol o'r gofyniad a dywedodd y byddai'n mynd i'r afael â'r maes arfer hwn yn briodol.

Gwnaethom nodi'r angen i'r practis sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn asesiad risg priodol megis cyfarpar ergonomig a sgrin arddangos. Fe'n hysbyswyd bod rhai o staff y dderbynfa wedi derbyn y mathau hyn o asesiadau ond un yn unig y daethom o hyd iddo. Rydym yn cynghori'r practis i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn asesiadau risg sy'n berthnasol i'w rolau a'u cyfrifoldebau.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn derbyn arfarniadau blynyddol amserol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn derbyn asesiadau risg priodol sy'n berthnasol i'w rolau a'u cyfrifoldebau.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Roedd y llyfr damweiniau'n cynnwys gwybodaeth bersonol yn ymwneud â digwyddiadau ac nid oedd yn cael ei storio'n ddiogel. | Gallai gwybodaeth breifat fod wedi cael ei pheryglu o bosib. | Adroddwyd am y broblem ar unwaith i reolwr y practis. | Cafodd fanylion personol eu symud a'u storio'n ddiogel. |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: {my}dentist Clifton Terrace, Y Drenewydd

## Dyddiad yr arolygiad: 20 Mawrth 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion gwella ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: {my}dentist Clifton Terrace, Y Drenewydd

## Dyddiad yr arolygiad:20 Mawrth 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn gwybodaeth a chyngor ar iechyd y geg. | 1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd | Cysylltwyd â'r Ganolfan Genedlaethol Rhoi'r Gorau i Smygu a Hyfforddiant. Archebwyd deunyddiau man gwerthu ac mae hyfforddiant fideo wedi cael ei gwblhau. Dylai'r holl aelodau staff gael eu hyfforddi erbyn 1 Mehefin 2018. | Stephen Jones | 1 Mehefin 2018 |
| Mae'n rhaid i'r practis wella ei ddefnydd o adnoddau/deunyddiau Cymraeg. | 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol | Bydd posteri yn cael eu harchebu o'r system farchnata fewnol. Hefyd, caiff ffolder ar wahân ei chreu yn y practis sy'n cynnwys fersiwn Gymraeg o'r holl ddeunyddiau cyfathrebu ysgrifenedig sy'n berthnasol i'r cleifion. Caiff hon ei | Stephen Jones | 1 Mehefin 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | storio yn y dderbynfa. | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Rhaid i’r practis sicrhau bod y gollyngiad dŵr y tu ôl i'r toiled wedi'i drwsio.<br><br>Rhaid i'r practis sicrhau bod biniau gwaredu gwastraff priodol yn cael eu defnyddio yn nhoiled y cleifion.<br><br>Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl waith paent a selwyr o amgylch sinciau'n cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio ac i hyrwyddo atal heintiau. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Mae'r gollyngiad dŵr yn y toiled wedi cael ei drwsio.<br><br>Rhoddwyd biniau pedal newydd yn y toiled. Caiff y rhain eu gweithredu gan bedal troed.<br><br>Mae contractwyr mydentist wedi disodli’r mannau â selwr silicon a amlygwyd ac maent hefyd wedi ailbaentio'r mannau yr effeithiwyd arnynt. | Stephen Jones<br><br>Stephen Jones<br><br>Stephen Jones | CWBLHAWYD<br>21 Mawrth 2018<br><br>CWBLHAWYD<br>23 Mawrth 2018<br><br>CWBLHAWYD<br>21 Mawrth 2018 |
| Rhaid i'r darparwr sicrhau bod cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu a'i roi ar waith yn dilyn unrhyw adolygiadau gan gymheiriaid clinigol a’i fod yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion priodol a nodwyd. | 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesedd | Cysylltwyd â Myles Povey, rheolwr cymorth clinigol mydentist i ganolbarth Cymru, i drefnu adolygiadau gan gymheiriaid yng nghanolbarth Cymru ac i drefnu proses gefnogi ar gyfer adolygiadau clinigol gan gymheiriaid. | Stephen Jones / Myles Povey | 1 Gorffennaf 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r practis sicrhau y cofnodir cyngor ar roi’r gorau i smygu yn gyson i gleifion.<br><br>Rhaid i'r practis sicrhau y cofnodir Archwiliadau Cyfnodol Sylfaenol mewn modd cyson a chynhwysfawr.<br><br>Rhaid i'r practis sicrhau bod canfyddiadau radiograffau yn cael eu cofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion. | 3.5 Cadw cofnodion | Siaradwyd â'r holl glinigwyr ynghylch rhoi cyngor ar roi’r gorau i smygu yn ystod eu sesiynau un i un. Mae'r holl glinigwyr wedi cytuno i gofnodi hyn yn eu nodiadau, a chaiff y rhain eu hadolygu yn ystod yr archwiliad clinigol nesaf.<br><br>Mae deunyddiau gloywi Archwiliadau Cyfnodol Sylfaenol wedi'u dosbarthu i'r holl glinigwyr a'r nyrsys. Cynlluniwyd y bydd y clinigwyr yn mesur yr Archwiliadau Cyfnodol Sylfaenol, ond y bydd y nyrsys yn cofnodi'r rhain wrth lunio'r nodiadau.<br><br>Caiff hyn ei adolygu yn sesiynau un i un clinigwyr ac adolygiadau archwilio pob chwe mis.<br><br>Mae'r holl glinigwyr wedi adolygu'r polisi radiograffeg a byddant yn sicrhau y | Stephen Jones<br>Joe Dowie<br>Anand Parikh<br>Tiago Falerio<br><br>Stephen Jones<br>Joe Dowie<br>Anand Parikh<br>Tiago Falerio<br><br>Stephen Jones<br>Joe Dowie<br>Anand Parikh<br>Tiago Falerio | 1 Gorffennaf 2018<br>Dyddiad yr archwiliad cofnodion chwe misol nesaf, ond caiff ei wirio ar sail ad hoc<br><br>1 Gorffennaf 2018<br>Dyddiad yr archwiliad cofnodion chwe misol nesaf, ond caiff ei wirio ar sail ad hoc<br><br>1 Gorffennaf 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | cofnodir pob darlun pelydr-X yng nghofnodion y cleifion. Dylai hyn gynnwys y cyfiawnhad ar gyfer cymryd y darlun pelydr-X a'r casgliad o'r hyn y mae'r darlun pelydr-X wedi'i ddangos. | | Dyddiad yr archwiliad cofnodion chwe misol nesaf, ond caiff ei wirio ar sail ad hoc |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn derbyn arfarniadau blynyddol amserol.<br><br>Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn derbyn asesiadau risg priodol sy'n berthnasol i'w rolau a'u cyfrifoldebau. | 7.1 Gweithlu | Bydd arfarniadau staff blynyddol yn cael eu cynnal ym mis Mai 2018, felly bydd yr holl aelodau staff wedi cwblhau eu harfarniad erbyn 31 Mai 2018.<br><br>Mae asesiadau risg a pholisïau wedi cael eu hadolygu. Mae'r holl aelodau staff yn ymwybodol o'r asesiadau risg sy'n benodol i'w swydd a ble i ddod o hyd i'r asesiadau risg. Bydd angen i'r staff gwblhau'r asesiadau risg hyn a sicrhau bod Stephen Jones yn eu cadarnhau. Oherwydd nifer yr asesiadau risg, caiff hyn ei adolygu bob | Stephen Jones<br><br>Stephen Jones | 31 Mai 2018<br><br>1 Gorffennaf 2018, dyddiad yr adolygiad cyntaf o asesiadau risg gyda phob aelod o staff. Adolygiadau dilynol i'w |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | tri mis. | | trefnu |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras):Stephen Jones**

**Swydd: Rheolwr y practis**

**Dyddiad: 11 Mai 2018**